

Prosiect Storio Solar ac Ynni Plas Power

YSTAD PLAS POWER, FFORDD RHUTHUN,
WRECSAM LL11 3BS

Llyfryn Ymgynghori Statudol

CHWEFROR 2024

Croeso

Mae Lightsource bp wedi datblygu cynigion ar gyfer Prosiect Storio Solar ac Ynni Plas Power, ger Coed-poeth, Wrecsam. Mae'r cynigion ar gyfer gosod a gweithredu paneli solar ar y ddaear, cyfleuster storio ynni a seilwaith cysylltiedig, ynghyd â thirlunio a chreu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwylt.

Mae Lightsource bp yn parhau i weithio'n agos gyda chymunedau lleol mewn perthynas â Phrosiect Storio Solar ac Ynni Plas Power.

Rydym yn ddiolchgar bod y gymuned wedi cymryd yr amser i ymgysylltu â ni a darparu adborth ar ein cynigion yn ein dau ymgynghoriad blaenorol. O ganlyniad i'r adborth hwn, ein hymgysylltiad ehangach parhaus ag aelodau'r gymuned a chanfyddiadau arolygon ac asesiadau amgylcheddol, rydym wedi diwygio'r cynigion.

Bellach rydym yn cynnal yr ymgynghoriad statudol ar y cynigion terfynol a'r cais cynllunio drafft cyn eu cyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio Amgylchedd Cymru (PEDW).

Dewch o hyd i ragor o wybodaeth yn:
lightsourcebp.com/uk/project/plas-power

Gallwch weld yr holl ddogfennau cynllunio ar y wefan hon.

Ystadegau



57 MWac o solar
(megawat o gerrynt eiledol)



57 MWac o storio ynni



Pweru **22,700** o gartrefi bob blwyddyn (cyfwerth)



136 hectar o dir



15,800 tonnell o allyriadau carbon wedi'u harbed



10,800 o geir injan hylosgi yn cael eu tynnu oddi ar y ffordd bob blwyddyn (cyfwerth)




Tua **64%** o ennillion net bioamrywiaeth ar gyfer cynefinoedd



Tua **72%** o ennillion net bioamrywiaeth ar gyfer gwrychoedd ar draws y safle.

Mae'r cyfnod ymgynghori yn rhedeg o ddydd Mercher 21 Chwefror i ddydd Mawrth 9 Ebrill 2024.



Bydd y prosiect hwn yn cyfrannu at dargedau 2030 Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy a lleihau allyriadau carbon.



Digwyddiadau galw-heibio

Dydd Mercher 13 Mawrth,
12pm to 4pm

Dydd Iau 14 Mawrth,
9.30am to 1pm

Dydd Iau 14 Mawrth,
2:30pm to 6:30pm

Y safle

Mae'r safle, sydd tua 136 hecтар, wedi'i leoli yn union i'r dwyrain o Goed-poeth a 3.4km i'r gorllewin o Wrecsam. Yr aneddiadau agosaf yw Coed-poeth, Brychdyn Newydd, Wrecsam, Rhostyllen, a Thalwrn.

Mae'r rhan fwyaf o'r safle yn cynnwys dwy ardal ryng-gysylltiedig i'r gogledd ac i'r de o'r A525 Ffordd Rhuthun:

- mae'r rhan ogleddol wedi'i ffinio gan yr A525 Ffordd Rhuthun i'r de ac yn ymestyn tua'r gogledd tuag at Ffordd y Bers Uchaf.
- mae rhan ddeheuol y safle wedi'i ffinio gan Ffordd Rhuthun i'r gogledd, i'r dwyrain gan yr A483, i'r de gan Goed Plas Power ac i'r gorllewin gan gaeau amaethyddol a'r tu hwnt i'r rhain mae Ffordd Rhos y Bers a Ffordd Nant.

Mae'r safle ar Ystad Plas Power ac yn cynnwys nifer o gaeau amaethyddol, wedi'u hamgylchynu gan amrywiaeth o goetir aeddfed, coed, gwrychoedd, ffensys, traciau amaethyddol a ffyrdd. Yn flaenorol, pwll glo brig oedd y safle. Mae'r caeau amaethyddol yn laswelltir a ddefnyddir ar gyfer pori yn bennaf, gweithgaredd a all barhau unwaith y bydd y paneli solar wedi'u gosod.

Dewiswyd lleoliad y safle'n ofalus gan fod y coetiroedd, y coed a'r gwrychoedd presennol, ynghyd â'r topograffi yn darparu sgrinio da ac yn lleihau effaith weledol y prosiect. Mae'r tir yn dir amaethyddol gradd is, ac nid yw'n cael ei ddsbarthu fel y 'gorau a mwyaf amlbwrpas', ac ychydig iawn o gyfyngiadau amgylcheddol a chynllunio eraill sydd iddo.

Y cynigion

Bydd Prosiect Solar a Storio Ynni Plas Power yn darparu ffynhonnell o ynni cartref, adnewyddadwy, gan helpu i leihau allyriadau carbon, cryfhau diogelwch ynni trwy leihau dibyniaeth ar ffynonellau ynni tanwydd ffosil a fewnforir, ac oherwydd bod pŵer solar yn un o'r ffyrdd rhataf o gynhyrchu trydan, bydd yn helpu i ostwng biliau hefyd.

Mae'r cynigion yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Araeau solar yn cynnwys paneli solar a fframiau
- Gwrthdroyddion
- Trawsnewidyddion
- Ceblau
- Is-orsaf
- System storio ynni batri
- Traciau mynediad mewnol
- Tirweddu a gwelliannau ecolegol
- Seilwaith cysylltiedig arall gan gynnwys storio offer

Bydd gan y prosiect solar gapasiti o 57MWac. Mae hyn yn ddigon i bweru'r hyn sy'n cyfateb i 22,700 o gartrefi'r flwyddyn, a fyddai'n arbed 15,800 tonnelli o allyriadau carbon. Mae hyn yn cyfateb i gael gwared ar 10,800 o geir sy'n llygru oddi ar y ffordd bob blwyddyn.

Bydd gan y system storio ynni gapasiti o 57MWac a bydd yn caniatáu i ynni dros ben a gynhyrchir yn ystod cynhyrchiant uchel a / neu alw isel gael ei storio a'i ddefnyddio ar adegau pan fo'r angen mwyaf am yr ynni, er enghraifft gyda'r nos.

Mae'r batri yn cydbwysu cynhyrchu ynni ysbeidiol ac yn gwneud yn fawr o effeithlonrwydd y safle i ganiatáu rhagor o allbwn o ynni glân.

Bydd y safle'n cysylltu â'r rhwydwaith trawsyrru trydan yn yr Is-orsaf Etifeddol trwy geblau tanddaearol i'r de-orllewin o'r safle, gan osgoi'r angen am beilonau uwchben ychwanegol.

Mae'r Prosiect Storio Solar ac Ynni Plas Power yn debygol o fod yn weithredol am 40 mlynedd. Ar ddiwedd ei oes weithredol, gellir datgymalu'r holl offer yn hawdd, eu symud o'r safle gyda'r rhan fwyaf o'r deunydd yn ailgylchadwy.

Cynllun safle'r prosiect



Fe wnaethon ni gynnal ymgynghoriadau ffurfiol yn 2021 a 2023, a thrwy hynny cawsom eich adborth ac wedyn diwygio ein cynigion yn unol â hynny.

Dywedoch chi

Gwnaethon ni

Codwyd pryderon gennych am effaith weledol y cynigion.

Gosodwyd y paneli solar yn ôl o eiddo ar hyd yr A525 (Ffordd Rhuthun) – i'r gogledd ac i'r de, gan gynnwys cael gwared ar gae i'r de o eiddo ar yr A525.

Fe wnaethom hefyd gynnwys tirlunio a phlannu ychwanegol i sgrinio'r cynigion o eiddo preswyl cyfagos, golygfannau pell, hawliau tramwy cyhoeddus, a golygfeydd dros dro o'r ffordd. Roedd hon yn broses iteraidd wedi'i llywio gan yr asesiadau amgylcheddol, a thrwy ymgysylltu â'r trigolion agosaf at y safle.

Dywedoch chi wrthym fod traffig yn problem leol sylweddol.

Aseswyd effeithiau posibl traffig i'r safle ac oddi yno, ac rydym wedi dod i'r casgliad na fydd y gwaith adeiladu yn effeithio'n sylweddol ar draffig. Rydym wedi paratoi cynllun rheoli traffig adeiladu amlinellol sy'n nodi mesurau i reoli ein traffig a lleihau'r effaith ar y gymuned.

Bydd cynllun manwl yn cael ei baratoi unwaith y penodir y prif contractwr. Pan yw'n weithredol, dim ond unwaith neu ddwywaith y mis y bydd y tîm cynnal a chadw fel arfer yn ymweld â'r safle.

Dywedoch chi wrthym am eich pryderon am effaith gronol ein prosiect a datblygiadau eraill yn yr ardal.

Fe wnaethom ystyried y datblygiadau eraill yn rhan o'n hasesiad o'r effaith amgylcheddol i ddeall effeithiau cronol posibl, ac i sicrhau bod unrhyw effeithiau a allai fod yn arwyddocaol yn cael eu lliniaru.

Fe wnaethoch godi pryderon ynghylch colli tir at ddibenion amaethyddol.

Rydym wedi cael gwared ar unrhyw dir a ddosberthir fel y 'gorau a mwyaf amlbwrpas' o'n safle arfaethedig. Defnyddir llawer o'r safle ar hyn o bryd ar gyfer pori defaid a gall hyn barhau ochr yn ochr â fferm solar weithredol.

Yn ogystal, bydd ein darpariaeth o ardaloedd tirweddu ac ecoleg yn helpu i roi hwb i bryfed peillio a fydd, yn ei dro, yn gwella ansawdd cnydau ac yn cefnogi cynhyrchiant cnydau. Fe wnaethom hefyd asesu'r effeithiau posibl ar briddoedd yn y datganiad amgylcheddol ac rydym wedi paratoi cynllun i reoli priddoedd a lleihau effeithiau yn ystod adeiladu a datgomiysnu.

Fe wnaethoch fynegi cefnogaeth i welliannau bioamrywiaeth gael eu cyflawni yn rhan o'r cynigion


Byddwn yn creu ardaloedd tirweddu ac ecoleg, gan gynnwys ardal i'r gogledd a fydd ar gyfer creu cynefinoedd yn unig. Mae ein cynigion tirweddu'n cynnwys plannu coed a gwrychoedd, dolydd blodau gwyllt, a glaswelltiroedd twmpathog, plannu prysgwydd, a phyllau i gynnal poblogaethau madfallod cribog mawr.

Byddwn yn defnyddio rhywogaethau brodorol lle bynnag y bo modd ar draws y safle, ac rydym yn bwriadu gosod byrddau gwybodaeth a fydd yn rhoi manylion am y cynefinoedd a rhywogaethau brodorol ar draws y safle, ynghyd â manylion am hanes yr ardal. Bydd y newidiadau hyn yn arwain at enillion net bioamrywiaeth sylweddol ar draws y safle.

Dywedoch chi wrthym fod y tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cerdded.

Byddwn yn cynnal yr hawliau tramwy cyhoeddus presennol sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de ar draws y safle.

Cynigion diweddaraf



Allwedd

- Ardaloedd tirweddu a bioamrywiaeth arfaethedig
- Cnwd hadau adar gwyllt arfaethedig
- Coetir a choed presennol
- Glaswelltir a dolydd arfaethedig ar gyfer pori a bywyd gwyllt
- Paneli solar ar y ddaear a seilwaith cysylltiedig

- Yr Opsiwn Llwybr Cebl a Ffafrir
- Opsiwn Llwybr Cebl 1
- Opsiwn Llwybr Cebl 2
- Opsiwn Llwybr Cebl 3
- Llwybr cebl
- Llwybr troed
- Ffin y safle

Ystyriaethau amgylcheddol

Wrth i ni ddatblygu ein prosiectau rydym yn asesu a nodi mesurau lliniaru ar gyfer unrhyw effeithiau posibl ar bobl, bywyd gwyllt a natur trwy broses a elwir yn asesiad o'r effaith amgylcheddol (AEA).

Mae'r ystyriaethau amgylcheddol allweddol fel a ganlyn a gellir gweld ein AEA llawn ar wefan y Prosiect lightsourcebp.com/uk/project/plas-power

Effaith ar y dirwedd ac effaith weledol

Cyflawnwyd asesiad o'r effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol, gan ddefnyddio modelau cyfrifiadurol i ddangos yr effaith ar olygfannau o amgylch y safle. Mae gwrychoedd a choetiroedd aeddfed eisoes yn ffinio â llawer o'r safle a lle bo'n briodol byddwn yn plannu sgriniau ychwanegol i leihau'r effaith weledol.

Yn dilyn ein hymgyngoriad yn 2023, fe wnaethom ddiweddarau'r cynigion i dynnu a gosod paneli solar yn ôl a gafodd effaith weledol o eiddo sydd wedi'u lleoli ger y safle. Yn ogystal â hyn, mae plannu coed a gwrychoedd wedi'u hychwanegu i sgrinio'r cynigion.

Treftadaeth ddiwylliannol

Mae'r ardal yn gyfoethog o ran treftadaeth ddiwylliannol, rydym wedi ymgynghori â CADW, Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ynghylch rhan o Glawdd Offa a chofeb Atodlen 1, a oedd o fewn ffin safle 2021. **Rydym bellach wedi tynnu'r tir hwn oddi ar y safle.**

Fe wnaethom hefyd drafod yr effaith ar leoliad rhestredig Gradd II Tŷ Plas Power. **Rydym wedi diweddarau cynllun y safle a thirlunio arfaethedig i leihau'r effaith hon.**

Gan fod llawer o'r tir wedi'i ddefnyddio ar gyfer cloddio glo brig yn y gorffennol, mae hyn yn lleihau'r siawns o ddod o hyd i eitemau archeolegol arwyddocaol ar y safle.

Y Newid yn yr Hinsawdd

Bydd y prosiect hwn yn cyfrannu at leihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil, gan ddatgarboneiddio'r grid a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG).

Mae asesiad allyriadau nwyon tŷ gwydr oes gyfan wedi'i gynnal yn rhan o'r asesiad o'r effaith amgylcheddol, ac er y byddai rhywfaint o allyriadau nwyon tŷ gwydr o ganlyniad i adeiladu, o fewn tair blynedd byddai gostyngiad net mewn allyriadau oherwydd yr allyriadau sy'n cael eu hosgoi gyda'r prosiect.

Y tu hwnt i'r pwynt hwn bydd y prosiect yn parhau i gael effaith fuddiol trwy osgoi allyriadau nwyon tŷ gwydr atmosfferig a fyddai wedi cael eu rhyddhau trwy ddulliau confensiynol ar gyfer cynhyrchu trydan trwy losgi tanwydd ffosil.

Bioamrywiaeth

Yr argyfwng hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf i fioamrywiaeth. Mae prosiectau solar nid yn unig yn helpu i leihau allyriadau carbon, ond gall prosiectau solar sydd wedi'u hystyried, eu dylunio a'u rheoli'n dda hefyd gynyddu amrywiaeth rhywogaethau planhigion, annog peillwyr, yn ogystal â darparu cynefinoedd newydd a gwell ar gyfer bywyd gwyllt.

Fe wnaethom gynnal arolygon manwl i ddeall pa rywogaethau a chynefinoedd sy'n bresennol ar y safle. Mae amrywiaeth o rywogaethau adar gan gynnwys yr ehedydd, y giach a choch y berllan wedi'u cofnodi ar y safle. Mae dyfrgwn yn byw yn Afon Clywedog i'r de ac mae nifer o ymlusgiaid gan gynnwys y wiber, neidr y gwair, nadroedd defaid a madfallod cyffredin wedi'u cofnodi o fewn 2km i'r safle. Buom yn cynnal arolwg ar gyfer madfallod dŵr cribog, adar gaeafu, adar magu, a dyfrgwn.

Bydd y prosiect yn:

- cadw a gwella'r rhan fwyaf o'r gwrychoedd presennol;
- plannu gwrychoedd ac ardaloedd blodau gwyllt ychwanegol, gan ddarparu rhagor o gynefinoedd i rywogaethau brodorol.
- gwarchod pob cynefin a allai fod o werth i ystlumod a phathewod trwy glustogfa; defnyddio golau artiffisial dim ond mewn achos o argyfwng yn ystod oriau tywyllwch, fel nad yw rhywogaethau nosol yn cael eu haflonyddu; a
- darparu cynnydd net bioamrywiaeth o tua 64% ar gyfer cynefinoedd a thua 72% ar gyfer gwrychoedd ar draws y safle.

Mae'r Prosiect yn rhoi cyfle cyffrous i wella'r safle ar gyfer rhywogaethau brodorol a hybu bioamrywiaeth, ac mae'r manylion wedi'u nodi yn ein cynllun rheoli tirwedd ac ecoleg.

Yn dilyn ein hymgyngoriad yn 2023, gwnaethom ddiweddarau'r cynigion i sicrhau nad oes unrhyw ddatblygiad wedi'i leoli o fewn 25m i'r coetir hynafol yng Nghoed Plas Power.

Fe wnaethom hefyd ddiweddarau'r cynigion i ddyrannu tir ger Coed-poeth i wella bioamrywiaeth, ac ymgorffori cynefinoedd newydd ar draws y safle, gan gynnwys plannu coed a gwrychoedd, dolydd blodau gwyllt a glaswelltiroedd twmpathog, plannu prysgwydd, a phyllau i gynnal poblogaethau madfallod cribog mawr.

Hydroleg a Hydroddaeareg

Yn rhan o'r AEA, rydym wedi cynnal nifer o astudiaethau i ddeall yn llawn effeithiau posibl y datblygiad ar berygl llifogydd a dŵr yng nghyffiniau'r safle.

Ystyrir bod risg isel iawn ar y safle o lifogydd o ddŵr wyneb ac Afon Clywedog. Mae prosiectau solar yn gymharol isel eu heffaith a bydd y plannu, ynghyd â gwell draeniad yn helpu i wella ymdreiddiad a lleihau dŵr ffo ar draws y safle.

Yn ystod y gwaith adeiladu byddwn yn dilyn canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau nad yw llygryddion yn cael eu rhyddhau i gyrsiau dŵr cyfagos. Er enghraifft, byddwn yn defnyddio golchwyr olwynion a mesurau atal llwch ar y safle, ac yn glanhau'r ffyrdd o wastraff adeiladu a baw.

Amaethyddiaeth a Phriddoedd

Caeau amaethyddol yw'r rhan fwyaf o'r safle, a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer pori defaid. Mae rhai meysydd yn cael eu defnyddio ar gyfer ffermio â'r. Mae mapiau rhagfynegol Llywodraeth Cymru ac arolygon pridd dilynol yn cadarnhau nad y tir 'gorau a mwyaf amlbwrpas' yw'r safle, a'i fod yn dir gradd is.

Bydd y safle'n cael ei ddylunio i ganiatáu i ddefaid barhau i bori. Mae llawer o brosiectau Lightsource bp wedi llwyddo i gyfuno solar â phori gan ddefaid. Gall defaid symud yn hawdd o dan baneli solar i bori ar bob rhan o'r arwynebedd tir, a helpu gyda chynnal gweiriau heb ddifrodi offer. Mae gan y paneli fantais ychwanegol o ddarparu cysgod rhag haul poeth a chysgod pan fo'r tywydd yn wael.

Yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect, bydd gwaith yn cael ei wneud yn unol â chynllun rheoli pridd sy'n sicrhau bod mesurau rheoli yn eu lle sy'n atal a lleihau difrod i briddoedd.

Ynni adnewyddadwy, glân

Mae ynni solar yn rhan allweddol o gyfuniad ynni'r dyfodol i gynhyrchu ynni glân, cartref a fydd yn helpu i fynd i'r afael â phrisiau ynni a chryfhau diogelwch ynni yng Nghymru a'r DU.




- Bydd ein cynigion yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy glân, gan helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn unol â thargedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ac mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a ddatganwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ym mis Medi 2019.
- Bydd ynni'r haul a gynhyrchir yma yng Nghymru a ledled y DU yn lleihau'r ddibyniaeth ar ffynonellau ynni tanwydd ffosil a fewnforir, megis nwy, a thrydan, gan ddarparu mwy o sicrwydd ynni.
- Gyda'r argyfwng ynni, gall ynni'r haul helpu i leihau costau ynni gan ei fod yn un o'r ffurfiau rhataf o gynhyrchu trydan.



Cynnal cymunedau a busnesau gwledig


Mae ein prosiectau wedi'u cynllunio a'u datblygu i gefnogi a chynnal cymunedau a busnesau gwledig lle bynnag y bo modd.



- Bydd ein cynigion yn cael eu dylunio'n benodol i gynnwys pori ochr yn ochr â chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn galluogi perchnogion tir i barhau i ddefnyddio'r safle at ddibenion amaethyddol.
- Rydym yn awyddus i weithio gyda'r gadwyn gyflenwi leol i'n helpu i ddylunio, adeiladu a rheoli'r prosiect solar hwn.
- Rydym yn prydlesu tir oddi wrth dirfeddianwyr lleol, ffermwyr yn y rhan fwyaf o achosion, ac mae hyn yn darparu ffynhonnell newydd, ddibynadwy o reffeniw am hyd at 40 mlynedd, a all helpu i gynnal y busnesau hyn, y mae llawer ohonynt wedi'u ffermio ers cenedlaethau, i'r dyfodol.
- Fel pob busnes, mae prosiectau storio solar ac ynni yn talu ardrethi busnes, a chedwir 100% ohonynt gan yr awdurdod lleol. Mae hyn o fudd i ysgolion lleol, cynnal a chadw strydoedd, gorsafedd tân, parciau a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Gwella bioamrywiaeth

Mae Lightsource bp yn un o arweinwyr y diwydiant o ran datblygu prosiectau sy'n amddiffyn a hyrwyddo bioamrywiaeth. Bydd y prosiect yn gwella cynefinoedd presennol ac yn creu cynefinoedd newydd er budd bywyd gwylt lleol ac yn sicrhau gwelliannau o ran bioamrywiaeth.




- Bydd ein prosiectau solar yn meithrin cynefinoedd peillwyr a fydd yn helpu i roi hwb i gnydau cyfagos.
- Yn ogystal â chreu cynefinoedd newydd ar draws y safle, rydym yn cadw un llain o dir, drws nesaf i Goed-poeth, a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer creu cynefinoedd yn unig.
- Rydym yn archwilio cynnwys cychod gwenyn, blychau adar ac ystlumod, llochesi ymlusgiaid a mwy, yn ogystal â phlannu coed brodorol a gwrychoedd i greu cynefinoedd o ansawdd ar gyfer bywyd gwylt.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cadw gwenyn ar y safle hon, cysylltwch â ni.



Amserlen ein prosiect



Y broses gynllunio

Am mai'r bwriad yw i'r prosiect solar gynhyrchu dros 10 MW o ynni adnewyddadwy, mae'r prosiect wedi'i ddsbarthu'n Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Bydd y cais DAC yn cael ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) a bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu arno.

Yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau o amgylch y safle rydym nawr yn ymgynghori ar y cynigion terfynol cyn cyflwyno'r cais cynllunio terfynol i PEDW.

Cyflwyniad i PEDW 2024

Bydd eich adborth ar y cynigion a'n hymatebion yn rhan o'r cais cynllunio llawn i'w gyflwyno i PEDW yng ngwanwyn / haf 2024.

Ymgynghoriad PEDW Haf 2024

Bydd PEDW yn cynnal ei ymgynghoriad pum wythnos ei hun lle gellir cyflwyno sylwadau pellach ar y cynigion yn uniongyrchol.

Penderfyniad gan Weinidogion Cymru 2025

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan weinidogion Cymru gan ddefnyddio'r wybodaeth a gyflwynwyd yn rhan o'r cais, ac adborth gan ymgynghoreion.

Adeiladu 2025 - 2026

Rhagwelir y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn 2025 ac yn gorffen yn 2026. Cytunir ar gynllun rheoli amgylcheddol adeiladu gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i leihau'r effaith ar yr ardal gyfagos yn ystod y gwaith adeiladu.

Cysylltiad Grid 2026

Mae cytundeb cysylltu yn ei le gyda'r Grid Cenedlaethol i gysylltu'r prosiect â'r rhwydwaith trydan yn 2026.

Gweithrediad 2026-2066

Bydd y prosiect yn weithredol ac yn cyflenwi ynni glân i Gymru ac i'r DU, gan helpu i gyflawni sero-net a datgarboneiddio ein planed.

Amdanom ni

Mae Lightsource bp yn arweinydd byd-eang ym maes datblygu, gweithredu a rheoli prosiectau solar a batri ar raddfa cyfleustodau. Ers dros ddegawd rydym wedi bod yn gweithio i newid y ffordd y mae ein byd yn cael ei bweru, gyda phŵer solar cynaliadwy a chyfrifol.

Ers 2010 rydym wedi bod yn defnyddio solar fforddiadwy, dibynadwy, ar raddfa fawr i helpu busnesau a chymunedau i ddatgarboneiddio. Mae ein busnes sy'n tyfu'n gyflym yn dysgu'n gyson, yn buddsoddi ac yn gwthio ffiniau i helpu i yrru'r gwaith o drawsnewid ynni yn gyflym ac ar raddfa fawr.

Rydym yn harneisio a thyfu talent o bob sector i helpu i gyflymu'r angen am ddyfodol carbon isel. Mae ein pobl a'n prosiectau'n canolbwyntio ar gefnogi twf cynaliadwy hirdymor a chryfhau gwytnwch y byd o'n cwmpas.

datblygwyd
8.4 GW
o bŵer solar

1200
o aelodau tîm

datblygwyd
300+ o
prosiectau ar
raddfa
cyfleustodau.

19
rhanbarth





Dweud eich dweud

Byddwn yn adolygu eich sylwadau, ac yn adrodd ar eich adborth a sut y gwnaethom ei ystyried yn ein cais cynllunio i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW).

I weld yr holl ddogfennau cynllunio ac i gyflwyno eich adborth ar-lein – ewch i:

lightsourcebp.com/uk/project/plas-power



Gallwch hefyd gysylltu â thîm y prosiect drwy'r dulliau canlynol:



Rhowch adborth i ni trwy lenwi eich ffurflen adborth ar y wefan erbyn 9 Ebrill 2024.

Os hoffech chi gael copi papur o'r ffurflen adborth, ffoniwch ni.



Rydyn ni yma i wrando ar eich barn. Gallwch siarad ag aelod o'r tîm drwy ffonio:

01978 800675



E-bostiwch eich sylwadau i :
plaspowersolar@lightsourcebp.com



Freepost GRASSHOPPER CONSULT
(nid oes angen stamp na chyfeiriad ychwanegol)